PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Y Cynghorydd B.E. Brooks (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson ac E. Williams.

314 CYHOEDDIAD –

Cyn dechrau busnes y Pwyllgor, darllenodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd y datganiad canlynol: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio dros y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wylio yn y dyfodol”.

315 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

316 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

317 MANYLION RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER SWYDD PENNAETH LANDLORD CORFFORAETHOL (CAC) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn nodi'r trefniadau recriwtio a dethol ar gyfer swydd Pennaeth Landlord Corfforaethol.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch lleoliad y rôl, gan fod natur y swydd yn golygu y byddai angen ailedrych ar asedau'r Cyngor ar draws y Sir, ac ymatebodd Cyfarwyddwr Adnoddau ynghylch yr angen i ddeiliad y swydd gynnal presenoldeb ym Mro Morganwg, gyda lleiafswm o 2 ddiwrnod yn bersonol i ddarparu arweinyddiaeth weladwy.

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll a fyddai angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar gyfer y swydd, a dywedwyd wrthynt fod y Cyfansoddiad yn nodi mai dim ond swyddi statudol fel Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 oedd angen cymeradwyaeth y Cyngor, ond y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Cyngor i nodi'r penodiad.

Cynigiwyd hysbysebu'r swyddi (yn fewnol ac yn allanol) cyn gynted â phosibl yn ymarferol gyda'r broses yn debygol o ddechrau ddiwedd mis Hydref 2025, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr yn cymeradwyo'r trefniadau recriwtio a dethol yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor fel y'u disgrifir ar gyfer y swydd yng nghorff yr adroddiad hwn.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd/Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a Phennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i fwrw ymlaen â'r canlynol:

a. hysbysebu'r swyddi;
b. bwrw ymlaen â'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer llunio rhestr hir ac unrhyw asesiad angenrheidiol o ymgeiswyr cyn llunio rhestr fer;
c. llunio rhestr fer derfynol ar gyfer cyfweliadau, y cynhelir y cyfweliadau hynny gan gyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn y dyfodol; a
d. cytuno ar gostau a gofynion adnoddau sy'n ymwneud â'r prosesau sy'n ofynnol i ddilyn y recriwtio a'r prosesau.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Er mwyn sicrhau bod y penodiadau'n cael eu bwrw ymlaen yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor

(2) Er mwyn caniatáu i faterion gael eu bwrw ymlaen cyn cam terfynol y recriwtio.